

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Etholiadau Lleol (Diwygiadau Amrywiol a Chanlyniadol) (Cymru) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Etholiadau Lleol (Diwygiadau Amrywiol a Chanlyniadol) (Cymru) 2022.

Rebecca Evans AS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

8 Chwefror 2022

RHAN 1

1. Disgrifiad

Rheoliadau Etholiadau Lleol (Diwygiadau Amrywiol a Chanlyniadol) (Cymru) 2022:

- gwneud darpariaeth atodol, ganlyniadol a throsiannol at ddibenion, o ganlyniad i, neu ar gyfer rhoi effaith lawn i wneud rheolau newydd ar gyfer cynnal etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, drwy Reolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 a Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021 neu Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021; a
- gwneud darpariaeth amrywiol sy'n diwygio'r ddwy set o Reolau y cyfeirir atynt uchod a rheoliad 56 o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 sy'n ymwneud â phleidleisio drwy ddirprwy.

Drwy gydol y Memorandwm Esboniadol hwn, defnyddir rhai termau generig er mwyn bod yn gryno:

- Prif ardal – yn cyfeirio at sir a / neu fwrdeistref sirol
- Prif gyngor – yn cyfeirio at gyngor sir a / neu gyngor bwrdeistref sirol
- Cyngor cymuned – yn cyfeirio at gyngor cymuned a / neu gyngor tref
- Rheolau PA 2021 – Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021
- Rheolau Cymunedau 2021 – Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021
- Deddf 1983 – Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

3. Cefndir deddfwriaethol

Mae gan Weinidogion Cymru'r pŵer i wneud y Rheoliadau hyn o dan adran 36A(1) i (6) o Ddeddf 1983, trwy baragraffau 4(2)(c) a 6(7) ac (8) o Atodlen 4 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 a thrwy adran 173(1) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae adran 36A(1) i (4) o Ddeddf 1983 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheolau ar gyfer cynnal etholiadau i brif gynghorau a chynghorau cymuned yng Nghymru. Mae adran 36A(5) o Ddeddf 1983 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau atodol, cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, darfodol neu ddarpariaethau arbed at ddibenion, o ganlyniad i neu ar gyfer rhoi effaith lawn i reolau a wneir o dan adran 36A(1). Mae adran 36A(6) o Ddeddf 1983 yn

galluogi Gweinidogion Cymru, wrth wneud darpariaeth o dan adran 36A(5), i ddiwygio, addasu diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad.

Mae paragraffau 4(2)(c) a 6(7) ac (8) o Atodlen 4 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch pleidleisio absennol mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae adran 173(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (“Deddf 2021”) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau atodol, cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, darfordol neu ddarpariaethau arbed at ddibenion, o ganlyniad i, neu i roi effaith lawn i unrhyw ddarpariaethau a wneir o dan Ddeddf 2021. Mewnosodwyd adran 36A o Ddeddf 1983 yn Neddf 1983 gan adran 13(3) o Ddeddf 2021. Mae adran 173(2) o Ddeddf 2021 yn galluogi Gweinidogion Cymru, wrth wneud darpariaeth o dan adran 173(1), i ddiwygio, addasu diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad.

Yn unol ag adran 7(1) a (2)(e) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol. Yn unol ag adran 36A(7) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, mae Gweinidogion Cymru hefyd wedi ymgynghori â'r personau eraill hynny yr oeddent yn ystyried eu bod yn briodol.

Ar 14 Rhagfyr 2021, ystyriodd a chymeradwyodd Senedd Cymru Reolau PA 2021 a Rheolau Cymunedau 2021, y cyfeirir atynt ar y cyd yn y memorandwm hwn fel “Rheolau 2021”.

Mae'r ddwy set o Reolau 2021 yn darparu'r rheolau ymddygiad a ddefnyddir wrth ethol cynghorwyr i brif gynghorau ac i gynghorau cymuned yng Nghymru. Mae'r ddwy set o Reolau 2021 yn benodol i Gymru ac yn anelu at ddarparu set wedi'i diweddarau ac wedi'i moderneiddio o reolau ymddygiad. Er enghraifft, mae dwy set o Reolau 2021 yn nodi'r rheolau ar:

- amserlen ar gyfer rhai gweithgareddau sy'n digwydd cyn ac ar y diwrnod pleidleisio,
- rhoi hysbysiad am etholiad,
- enwebu ymgeiswyr,
- ffurf papurau pleidleisio,
- swyddogaethau swyddogion canlyniadau a swyddogion llywyddu,
- penodi (gan ymgeiswyr) asiantau pleidleisio ac asiantau cyfrif,
- cyfrif pleidleisiau a datgan canlyniadau.

Mae rheolau 2021 hefyd yn darparu i bolisiau a wneir fel rhan o ddatblygu a darparu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 gael eu rhoi ar waith; sef y dewis i gyhoeddi cyfeiriad cartref yr ymgeisydd, datgan ymlyniad wrth blaid wleidyddol a newidiadau angenrheidiol ar ôl estyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 a 17 oed a dinasyddion tramor sy'n gymwys.

Bydd Rheolau 2021 yn gymwys i ethol cynghorwyr i brif gynghorau ac i gynghorau cymuned yng Nghymru a gynhelir ar 5 Mai 2022 neu ar ôl hynny.

Mae Rheolau PA 2021 a Rheolau Cymunedau 2021 yn disodli yn eu trefn Reolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru a Lloegr) 2006 ("Rheolau PA 2006") a Rheolau Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) (Cymru a Lloegr) 2006 ("Rheolau Cymunedau 2006"). Gwnaed y ddwy set o Reolau 2006 gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar sail Cymru a Lloegr, yn Saesneg yn unig, ac roeddent yn cynnwys cymysgedd cymhleth o ddarpariaethau, rhai ohonynt yn gymwys yng Nghymru a rhai nad oeddent yn gymwys yng Nghymru.

Mae Rheolau 2021 yn nodi'r rheolau sy'n gymwys yng Nghymru mewn ffordd glir, mewn un lle ac yn Gymraeg a Saesneg.

Os bydd angen is-etholiad i brif gyngor yn y cyfnod rhwng gwneud Rheolau 2021 a'r etholiadau a gynhelir ar 5 Mai 2022 - digwyddiad pur annhebygol - byddai'r etholiad yn cael ei gynnal o dan Reolau PA 2006. Dim ond yn y chwe mis cyn 5 Mai 2022 (diwrnod etholiadau arferol) y gellid cynnal etholiad o'r fath os yw'r swydd wag neu'r swyddi gwag yn dod â chyfanswm nifer y swyddi gwag heb eu llenwi ar y prif gyngor o dan sylw i dros un rhan o dair o'r holl aelodau. Os nad eir dros y trothwy hwnnw, mae unrhyw swyddi gwag sy'n digwydd yn ystod y chwe mis diwethaf yn dal heb eu llenwi tan yr etholiad cyffredin nesaf.

Os bydd swydd wag yn digwydd mewn cyngor cymuned yn y cyfnod rhwng gwneud Rheolau 2021 a'r etholiadau a gynhelir ar 5 Mai 2022, gall y swydd wag gael ei llenwi gan y cyngor o dan sylw drwy gyfethol person i llenwi'r swydd wag. Os bydd y cyngor yn penderfynu peidio â llenwi'r swydd wag yn y cyfnod hwnnw neu os nad yw'n gallu gwneud hynny, efallai na fydd y swydd wag yn cael ei llenwi tan yr etholiad cyffredin nesaf.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae Rheoliad 1 yn nodi'r darpariaethau enwi a chychwyn.

Mae Rheoliad 2 yn diwygio Rheolau PA 2021 a Rheolau Cymunedau 2021. Mae'r diwygiadau'n ychwanegu, at y rhestr o seiliau y gall y swyddog canlyniadau farnu bod papur enwebu yn annilys, nad yw'r papur enwebu yn cynnwys y datganiadau y mae'n ofynnol i'r ymgeisydd eu cynnwys yn eu papur enwebu, a lofnodir gan yr ymgeisydd.

Mae Rheoliad 3 yn diwygio rheol 51 a rheol 30 o'r Atodlenni i Reolau PA 2021 a Rheolau Cymunedau 2021. Mae'r diwygiad i reol 51 yn galluogi'r copïau wedi'u marcio o'r cofnodion cofrestru a'r rhestr dirprwyon a'r rhestr rhifau cyfatebol a farciwyd i gael eu rhoi mewn pecynnau a'u selio mewn man heblaw'r orsaf bleidleisio (cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl yr amser y mae'r gorsafoddd pleidleisio'n cau). O ganlyniad i hyn, mae rheol 30 yn cael ei diwygio fel y caiff y swyddog llywyddu awdurdodi'r clerod a benodir gan y swyddog canlyniadau i weithredu mewn unrhyw fan lle mae'r llywydd yn cyflawni swyddogaethau.

Mae Rheoliad 4 yn diwygio rheol 31 o Atodlen 2 i Reolau Cymunedau 2021. Mae Atodlen 2 yn nodi'r rheolau sy'n gymwys pan gyfunir y bleidlais mewn etholiad cymunedol â'r bleidlais mewn rhai etholiadau eraill. Mae'r diwygiadau'n darparu ar gyfer dyroddi cardiau pleidleisio swyddogol yn yr etholiad cymuned ar gais y cyngor cymuned, ac eithrio cardiau pleidleisio a ddyroddir i etholwyr sydd â chofnodion dienw y mae'n rhaid eu dyroddi p'un a oes cais ai peidio. Dyma'r sefyllfa sy'n gymwys, o dan reol 31 o Atodlen 1 i Reolau Cymunedau 2021, mewn etholiadau cymuned sy'n annibynnol (h.y. heb eu cyfuno ag etholiad arall). Mae'r diwygiadau'n cywiro amryfusedd yn Atodlen 2 ac yn golygu mai'r un yw'r sefyllfa o ran dyroddi cardiau pleidleisio mewn etholiadau cymuned pa un a yw'r bleidlais yn cael ei chyfuno ai peidio.

Mae Rheoliad 5 yn gwneud diwygiadau sy'n ymwneud â'r amserlen ar gyfer etholiadau. Mae paragraffau (2) a (3) yn diwygio Rheolau Prif Ardaloedd 2021 a Rheolau Cymunedau 2021 er mwyn ychwanegu, at y rhestr o ddiwrnodau sydd i'w diystyru wrth gyfrifo cyfnodau o amser yn amserlen yr etholiad, ddiwrnodau a bennwyd ar gyfer diolchgarwch neu alaru cyhoeddus. Mae'r diwygiadau'n cywiro hepgoriad yn y Rheolau hynny. Mae paragraff (1) yn gwneud diwygiad cysylltiedig i adran 40(1) o Ddeddf 1983 ac yn cywiro hepgoriad yno. Effaith y diwygiad i adran 40(1) o Ddeddf 1983 yw, pan fyddai'r bleidlais mewn etholiad llywodraeth leol cyffredin yng Nghymru yn digwydd ar ddydd Sadwrn, dydd Sul, Noswyl Nadolig, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith, gŵyl banc neu ddiwrnod a bennwyd ar gyfer diolchgarwch neu alaru cyhoeddus, fod yr etholiad wedi ei ohirio tan y diwrnod cyntaf wedi hynny nad yw'n un o'r diwrnodau hynny.

Mae Rheoliad 6 yn diwygio darpariaethau Deddf 1983 yn ymwneud ag asiantau etholiadol o ganlyniad i, ac i roi effaith bellach i'r ddarpariaeth a wneir yn rheol 9(6) o bob un o Atodlenni 1 a 2 i Reolau Prif Ardaloedd 2021, sy'n galluogi ymgeisydd mewn etholiad prif ardal i gynnwys datganiad yn ei ffurflen cyfeiriad cartref na chaniateir cyhoeddi ei gyfeiriad cartref.

O dan reol 9(6) o bob un o Atodlenni 1 a 2 i Reolau PA 2021, caiff ymgeisydd gynnwys yn ei gyfeiriad cartref ddatganiad na chaniateir cyhoeddi ei gyfeiriad cartref. Pan fo ymgeisydd yn cynnwys datganiad o'r fath, rhaid iddo hefyd ddatgan yr "ardal berthnasol" lle mae'n byw. Os yw'r ymgeisydd yn byw yn y DU yr ardal berthnasol yw'r ardal llywodraeth leol, a ddiffinnir ar gyfer pob gwlad yn y DU yn rheol 9(8) o Atodlenni 1 a 2 i Reolau PA 2021. Os yw'r ymgeisydd yn byw y tu allan i'r DU, yr ardal berthnasol yw'r wlad lle mae'n byw. Cyhoeddir yr ardal berthnasol wedyn fel rhan o fanylion yr ymgeisydd yn y datganiad o bersonau a enwebwyd ac ar y papur pleidleisio (yn hytrach na'u cyfeiriad cartref).

Mae adran 67 o Ddeddf 1983 yn gwneud darpariaeth amrywiol ynghylch penodi asiant etholiadol. Yn benodol, mae adran 67(6) yn ei gwneud yn ofynnol i swyddog priodol y cyngor ("y swyddog priodol") roi hysbysiad cyhoeddus o enw a chyfeiriad asiant etholiadol, y mae'n rhaid darparu ei fanylion i'r swyddog hwnnw o dan adran 67(1) o Ddeddf 1983. Os yw ymgeisydd mewn etholiad prif

gyngor yn gweithredu fel asiant etholiadol iddo ef ei hun, mae gofynion adran 67(1) a (6) yn golygu y byddai eu cyfeiriad cartref yn cael ei gyhoeddi drwy'r hysbysiad am fanylion asiant etholiadol, hyd yn oed pe bai'r ymgeisydd hwnnw wedi gofyn i'w gyfeiriad cartref gael ei ddal yn ôl o'r datganiad am y sawl a enwebwyd a'r papur pleidleisio.

Yn unol â hynny, mae rheoliad 6(2) o'r rheoliadau hyn yn diwygio adran 67 o Ddeddf 1983 drwy fewnosod is-adran (6A) newydd, sy'n darparu, os yw ymgeisydd sydd hefyd yn gweithredu fel asiant etholiadol iddo ef ei hun wedi gwneud datganiad yn ei ffurflen cyfeiriad cartref na chaniateir cyhoeddi eu cyfeiriad, bod rhaid i'r swyddog priodol, wrth gyhoeddi'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan adran 67(6) am yr asiant etholiadol, beidio â chynnwys cyfeiriad cartref yr ymgeisydd yn yr hysbysiad cyhoeddus, ond bod rhaid iddo gynnwys yn lle hynny yr wybodaeth a roddir gan yr ymgeisydd ar ei ffurflen cyfeiriad cartref, h.y. yr ardal berthnasol lle mae'n byw.

Mae rheoliad 6 hefyd yn diwygio adran 69 o Ddeddf 1983. Mae adran 69 yn ei gwneud yn ofynnol i bob asiant etholiadol a phob is-asiant gael swyddfa y gellir anfon pob hawliad, hysbysiad, proses gyfreithiol a dogfennau eraill ati. Rhaid datgan cyfeiriad y swyddfa i'r swyddog priodol ac fe'i cyhoeddir yn yr hysbysiad cyhoeddus o enw'r asiant etholiadol. Os yw'r ymgeisydd yn gweithredu fel asiant etholiadol iddo ef ei hun, mae'n ddigon posibl y bydd yn defnyddio ei gartref fel y swyddfa. Mae rheoliad 6(3) a (4) o'r rheoliadau hyn yn diwygio adran 69 o Ddeddf 1983 er mwyn ymdrin â'r sefyllfa pan fo'r ymgeisydd yn gweithredu fel asiant etholiadol iddo ef ei hun ac y mae ei gyfeiriad cartref hefyd yn gyfeiriad ei swyddfa, os nad yw'r ymgeisydd am i'w gyfeiriad swyddfa gael ei gynnwys yn yr hysbysiad cyhoeddus, fe gaiff, yn ychwanegol at ddatgan y cyfeiriad swyddfa, ddarparu cyfeiriad arall, i'w ddefnyddio ar gyfer gohebiaeth ("y cyfeiriad gohebu"). Os yw ymgeisydd yn darparu cyfeiriad gohebu, y mae'n rhaid iddo fod yng Nghymru neu Loegr, rhaid cynnwys y cyfeiriad gohebu yn yr hysbysiad cyhoeddus a roddir o dan adran 67(6) o Ddeddf 1983, yn hytrach na chyfeiriad y swyddfa. Bernir bod unrhyw hawliad, proses gyfreithiol neu ddogfen arall sydd wedi eu danfon i'r cyfeiriad gohebu wedi eu cyflwyno i'r asiant etholiadol yn yr un modd ag y byddent wedi eu cyflwyno pe baent wedi eu danfon i'r cyfeiriad swyddfa.

Mae rheoliad 6(5) a (6) yn diwygio adran 70 o Ddeddf 1983 sy'n ymdrin â sefyllfa ymgeisydd sy'n dod yn asiant etholiadol iddo ef ei hun oherwydd methiant, fel arfer am nad yw wedi penodi unrhyw un yn asiant etholiadol iddo. Mae'r diwygiadau'n darparu ar gyfer barnu bod gan yr ymgeisydd swyddfa yn y cyfeiriad cartref a roddir yn ei ffurflen cyfeiriad cartref os yw'r cyfeiriad hwnnw yng Nghymru neu yn Lloegr, ac fel arall yn y cyfeiriad y cadarnhaodd ei gymhwyster i fod yn ymgeisydd yn ei rinwedd ("y cyfeiriad cymwys"). Mae'r diwygiadau hefyd yn ymdrin â chymhwyso adrannau 67 a 69 yn y sefyllfa hon. Mae adran 67 yn gymwys yn y ffordd arferol. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw gyfle i'r ymgeisydd ddarparu cyfeiriad gohebu arall o dan adran 69. O ganlyniad, bydd cyfeiriad swyddfa tybiedig yr ymgeisydd bob amser yn cael ei gynnwys yn yr hysbysiad cyhoeddus a roddir.

Mae adran 71 o Ddeddf 1983 yn darparu nad oes angen asiant etholiad ar ymgeisydd mewn etholiad cyngor cymuned yng Nghymru ac nad yw'r darpariaethau yn adrannau 67 a 69 o Ddeddf 1983 yn gymwys mewn etholiad cyngor cymuned, hyd yn oed os yw ymgeisydd yn penodi asiant etholiadol. Yn unol â hynny, mae'r diwygiadau a wneir gan reoliad 6 yn gymwys i ymgeiswyr mewn etholiadau prif gynghorau yn unig, gan nad oes angen diwygiadau o'r fath ar gyfer ymgeiswyr / asiantau mewn etholiadau cynghorau cymuned.

Mae Rheoliad 7 yn cyflwyno Atodlenni 1 a 2 i'r Rheoliadau hyn, sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol i Reolau PA 2006 a Rheolau Cymunedau 2006 yn y drefn honno, fel bod y ddwy set o Reolau 2006 yn gymwys i etholiadau yn Lloegr yn unig. Mae Rheolau PA 2021 a Rheolau Cymunedau 2021 yn disodli Rheolau PA 2006 a Rheolau Cymunedau 2006 i'r graddau y mae etholiadau prif gynghorau a chynghorau cymuned yng Nghymru yn y cwestiwn. Er hynny, mae'r ddwy set o Reolau 2006 yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer etholiadau prif gynghorau a chynghorau plwyf yn Lloegr.

Mae Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn yn nodi diwygiadau i Reolau PA 2006 gyda'r effaith bod y rheolau hynny yn gymwys o hyn ymlaen i etholiadau prif gynghorau yn Lloegr yn unig.

Mae Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn yn nodi diwygiadau i Reolau Cymunedau 2006 gyda'r effaith bod y rheolau hynny yn gymwys o hyn ymlaen i etholiadau i brif gynghorau yn Lloegr yn unig.

Mae Rheoliad 8 yn dirymu Gorchmynion Ffurflenni Cymraeg penodol fel y'u nodir yn y rheoliad. Mae Rheolau PA 2006 a Rheolau Cymunedau 2006 yn cynnwys Atodiadau sy'n nodi ffurflenni rhagnodedig penodedig y mae'n rhaid eu defnyddio ar gyfer swyddogaethau penodol a nodir yn y rheolau. Mae'r ffurflenni fel y'u nodir yn y ddwy set o Reolau 2006 yn Saesneg yn unig.

Yn unol ag adran 26(2) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 gwnaeth Gweinidogion olynol y DU Orchmynion Ffurflenni Cymraeg a oedd yn rhagnodi fersiynau Cymraeg o'r ffurflenni Saesneg rhagnodedig a nodir yn yr Atodiadau i'r ddwy set o reolau 2006; roedd y fersiynau Cymraeg i'w defnyddio gyda'r fersiynau Saesneg ar gyfer y swyddogaeth briodol yn y weithdrefn etholiadol.

Gwnaed Rheolau PA 2021 a Rheolau Cymunedau 2021 yn Gymraeg ac yn Saesneg, y tro cyntaf i'r rheolau eu hunain gael eu gwneud yn Gymraeg. Mae'r fersiynau Cymraeg o'r ddwy set o reolau yn cynnwys Atodiadau sy'n nodi'r fersiwn Gymraeg o'r ffurflenni rhagnodedig perthnasol. Mae'r ffurflenni Cymraeg a nodir yn y ddwy set o Reolau 2021 yn disodli'r ffurflenni a nodir yn y gwahanol Orchmynion Ffurflenni Cymraeg. Yn unol â hynny, mae rheoliad 6 yn dirymu'r Gorchmynion Ffurflenni Cymraeg penodedig fel y maent bellach wedi darfod.

Mae Rheoliad 9 yn cyflwyno Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol i Atodlen 4 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 ("Gorchymyn 2007"). Mae Atodlen 4 i Orchymyn 2007 yn ymwneud â chyfuno cynnal pleidleisiau lle mae etholiad i Senedd

Cymru (Cynulliad Cenedlaethol Cymru gynt) yn cael ei gyfuno â'r bleidlais ar gyfer etholiad i brif gyngor neu gyngor cymuned yng Nghymru o dan erthygl 16(1) neu (2) o Orchymyn 2007 (Cyfuno cynnal pleidleisiau yn etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol).

Mae cyfuno cynnal pleidleisiau yn golygu bod angen gwneud rhai addasiadau i'r rheolau sy'n llywodraethu cynnal y priod etholiadau. Mae Rhan 1 o Atodlen 4 i Orchymyn 2007 yn gwneud darpariaeth gyffredinol benodol ynghylch cynnal pleidlais gyfun sy'n cynnwys etholiad Senedd Cymru; mae Rhan 2 o Atodlen 4 yn gwneud addasiadau i reolau penodol (yn Atodlen 5 i Orchymyn 2007) ar gyfer cynnal etholiad Senedd Cymru pan gaiff ei gyfuno ag etholiad llywodraeth leol; mae Rhan 3 o Atodlen 4 yn gwneud addasiadau i reolau penodol, fel y nodir yn Rheolau PA 2006, ar gyfer cynnal etholiad prif gyngor yng Nghymru, pan gaiff ei gyfuno ag etholiad Senedd Cymru; ac mae Rhan 4 o Atodlen 4 yn gwneud addasiadau i reolau penodol, fel y nodir yn Rheolau Cymunedau 2006, ar gyfer cynnal etholiad cyngor cymuned yng Nghymru, pan gaiff ei gyfuno ag etholiad Senedd Cymru.

Mae Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau technegol penodol i Ran 1 o Atodlen 4 i Orchymyn 2007 i gymryd i ystyriaeth diwygiadau i Ddeddf 1983 a wnaed gan Ddeddf 2021. Mae Rhan 2 o Atodlen 3 yn rhoi Rhan 3 newydd yn lle'r Rhan 3 bresennol o Atodlen 4 i Orchymyn 2007, felly mae'r addasiadau a wnaed i'r rheolau ar gyfer cynnal etholiad prif gyngor o'u cyfuno ag etholiad Senedd Cymru yn cael eu mynegi mewn perthynas â Rheolau PA 2021 yn hytrach na Rheolau PA 2006. Mae Rhan 3 o Atodlen 3 yn rhoi Rhan 4 newydd yn lle'r Rhan 4 bresennol o Atodlen 4 i Orchymyn 2007, felly mae'r addasiadau a wnaed i'r rheolau ar gyfer cynnal etholiad cyngor cymuned o'u cyfuno ag etholiad Senedd Cymru yn cael eu mynegi mewn perthynas â Rheolau Cymunedau 2021 yn hytrach na Rheolau Cymunedau 2006.

Mae Rheoliad 10 yn ymestyn, hyd at a chan gynnwys 31 Mai 2023, ddarpariaeth yn Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 sy'n darparu ar gyfer pleidleisio drwy ddirprwy mewn argyfwng mewn perthynas â phersonau nad ydynt yn gallu mynychu gorsaf bleidleisio yn bersonol o ganlyniad i ddilyn deddfwriaeth, canllawiau neu gyngor meddygol perthnasol mewn perthynas â phandemig COVID-19. Mae'r ddarpariaeth hefyd yn caniatáu i unigolion sydd eisoes â phleidlais drwy ddirprwy newid yr unigolyn enwebedig hyd at 5.00pm ar ddiwrnod yr etholiadau am yr un rhesymau.

Y dyddiad cau ar gyfer cais am bleidlais gyffredin drwy ddirprwy mewn etholiad yw erbyn 17:00 ar y chweched diwrnod cyn yr etholiad (ac eithrio penwythnosau a gwyliau cyhoeddus). Gall pleidleisiau drwy ddirprwy mewn argyfwng ddod i law'r swyddog cofrestru erbyn 17:00 ar ddiwrnod y bleidlais ac maent ar gael i bobl ar sail dallineb neu anabledd arall.

Estynnodd Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) (Rhif 2) 2020 y categorïau o bobl a all wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy mewn argyfwng i gynnwys unigolion na allant bleidleisio'n bersonol am eu bod yn dilyn Cyngor Llywodraeth Cymru neu gyngor meddygol mewn

perthynas â COVID-19 mewn etholiadau a ohiriwyd o dan Reoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020. Nid oes angen unrhyw dystio meddygol o dan yr amgylchiadau hyn. Roedd y rheoliadau hefyd yn caniatáu i unigolion a oedd eisoes â phleidlais drwy ddirprwy newid yr unigolyn enwebedig hyd at 5.00pm ar ddiwrnod yr etholiadau am yr un rhesymau. Newid dros dro oedd hwn ac nid oedd yn gymwys ond i etholiadau a gynhaliwyd o dan Reoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020 ond fe'i hestynnwyd wedyn, yn fwyaf diweddar gan Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2021 i is-etholiadau y mae'r bleidlais ar eu cyfer yn digwydd cyn 28 Mawrth 2022.

Mae rheoliad 10 yn ymestyn ymhellach y darpariaethau ar gyfer pleidleisiau drwy ddirprwy mewn argyfwng am resymau sy'n ymwneud â phandemig COVID-19 tan 31 Mai 2023 ac yn eu cymhwyso i bob etholiad llywodraeth leol a gynhelir yng Nghymru yn y cyfnod hwnnw, boed yn etholiadau cyffredin neu'n is-etholiadau.

Mae *Rheoliad 11* yn cyflwyno Atodlen 4 i'r Rheoliadau hyn, sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol pellach fel y'u nodir yn yr Atodlen.

Mae paragraff 1 o Atodlen 4 yn hepgor darpariaethau yn Neddf 2021 sydd bellach wedi eu disbyddu. Roedd adran 13(4) o Ddeddf 2021 yn darparu y dylai rheolau etholiadau a wnaed o dan adran 36 o Ddeddf 1983 (y ddwy set o Reolau 2006 i bob pwrpas) barhau i fod yn gymwys yng Nghymru fel pe baent wedi'u gwneud o dan y pŵer adran 36A newydd (a fewnosodwyd yn Neddf 1983 gan adran 13 o Ddeddf 2021) hyd nes y gwnaed rheolau newydd o dan adran 36A. Trefniant trosiannol oedd hwn; mae'r rheolau newydd (y ddwy set o Reolau 2021) bellach wedi'u gwneud felly mae adran 13(4) wedi'i disbyddu. Mae paragraff 1(b) o Atodlen 4 i'r Rheoliadau hyn hefyd yn hepgor paragraff 19 o Atodlen 2 i Ddeddf 2021 a wnaeth ddiwygiadau penodol (sy'n benodol i Gymru) i Reolau PA 2006. Mae gwneud Rheolau 2021 yn golygu bod y rhain wedi'u disbyddu felly mae paragraff 19 o Atodlen 2 wedi'i hepgor o Ddeddf 2021.

Mae paragraff 2 o Atodlen 4 i'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i reoliad 6 (addasu darpariaethau ynghylch treuliau yn Neddf 1983) o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cyfuno Cynnal Pleidleisiau) (Cymru a Lloegr) 2004. Gwnaeth Deddf 2021 ddarpariaeth ynghylch gwariant gan swyddogion canlyniadau mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru drwy fewnosod adran 36C newydd yn Neddf 1983. O ganlyniad i hyn, mae'n ofynnol i ddiwygiadau i reoliad 6 o Reoliadau Cyfuno Cynnal Pleidleisiau ddiweddarau croesgyfeiriadau fel bod rheoliad 6 yn cyfeirio at yr adran 36C newydd lle y bo'n briodol. Er i'r rhan fwyaf o'r gwaith diweddarau angenrheidiol gael ei wneud gan baragraff 17(4) o Atodlen 2 i Ddeddf 2021, roedd un hepgoriad, y mae paragraff 2 o Atodlen 4 i'r Rheoliadau hyn yn ei gywiro.

Mae paragraff 3 o Atodlen 4 i'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiad canlyniadol angenrheidiol i reoliad 4 o Reoliadau Etholiadau'r Comisiynydd Heddlu a

Throseddu (Swyddogaethau Swyddogion Canlyniadau) 2012, felly mae'r cyfeiriadau presennol at reolau penodol yn Rheolau PA 2006 a Rheolau Cymunedau 2006 yn cael eu diweddarau i gyfeirio at y rheolau newydd cyfatebol ar gyfer Cymru.

Mae rheoliad 12 yn gwneud darpariaeth drosiannol fel nad yw dirymiadau perthnasol a diwygiadau eraill a wneir gan y Rheoliadau yn effeithio ar gynnal etholiad ar gyfer cynghorwyr i gyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned yng Nghymru pan fo'r bleidlais yn yr etholiad yn digwydd cyn 5 Mai 2022.

5. Ymgynghori

Roedd y Memorandwm Esboniadol i Reolau 2021 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn manylu ar yr ymgynghoriad a gynhaliwyd mewn perthynas â'r polisiau a gynhwysir yn y deddfiadau hynny a gellir gweld y rhain yma (<https://senedd.wales/media/1rubj1lr/sub-ld14684-em-e.pdf> and <https://senedd.wales/media/udpfm4r1/sub-ld14685-em-e.pdf>) .

Yn unol ag adran 7(1) a (2)(e) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ac adran 36A(7) o Ddeddf 1983, mae Gweinidogion Cymru wedi cynnal ymgynghoriadau wedi'u targedu ymhellach fel y gwelsant yn briodol gyda'r Comisiwn Etholiadol, cyrff sy'n cynrychioli gweinyddwyr etholiadol llywodraeth leol yng Nghymru, Llywodraeth y DU, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Un Llais Cymru, gweinyddwyr etholiadol awdurdodau lleol, a swyddogion canlyniadau awdurdodau lleol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau.

Mae'r rhan fwyaf o'r rheoliadau hyn yn ganlyniadol i Reolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 ac Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021 y cynhaliwyd asesiadau effaith rheoleiddiol ar eu cyfer; cyhoeddir y rhain yn y memorandwm esboniadol perthnasol sy'n cyd-fynd â'r ddwy set o Reolau 2021. (<https://senedd.wales/media/1rubj1lr/sub-ld14684-em-e.pdf> a <https://senedd.wales/media/udpfm4r1/sub-ld14685-em-e.pdf>). Er hynny, bydd angen ystyried rheoliadau penodol mewn asesiad effaith rheoleiddiol a nodir yn rhan 2 o'r memorandwm esboniadol hwn.

Rheoliadau Etholiadau Lleol (Diwygiadau Amrywiol a Chanlyniadol) (Cymru) 2022

RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Rhagymadrodd

Mae'r rheoliadau'n cynnwys darpariaeth atodol a chanlyniadol a wneir at ddibenion, o ganlyniad i, neu i roi effaith lawn i Reolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 a Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Lluniwyd Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y rheini a gellir eu gweld yma (<https://senedd.cymru/media/ybch1yga/sub-ld14684-em-w.pdf> a <https://senedd.cymru/media/q4ddykc0/sub-ld14685-em-w.pdf>).

Dim ond darpariaethau penodol o fewn y rheoliadau sydd angen eu hystyried ymhellach yn yr Aseidiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Mae hyn yn gyson â Chod Aseidiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth. Ceir crynodeb o effaith y rheoliadau isod, er mwyn nodi'r rhai a fydd yn cael eu cynnwys yn yr aseidiad a'r rhai nad oes angen aseidiad pellach ar eu cyfer:

Mae **rheoliad 1** yn darparu ar gyfer enwi a chychwyn y Rheoliadau. Nid oes gan y rheoliad hwn unrhyw oblygiadau o ran cost na budd ac ni fydd yn effeithio ar y sector cyhoeddus, y sector preifat, y sector elusennol na'r sector gwirfoddol. O ganlyniad, ni fydd y rheoliad hwn yn cael ei ystyried yn yr Aseidiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

Mae **rheoliad 2** yn diwygio Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 a Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021 gan ychwanegu, at y rhestr o seiliau y caiff y swyddog canlyniadau ddyfarnu bod papur enwebu'n annilys arnynt, nad yw'r papur enwebu'n cynnwys y datganiadau y mae'n ofynnol i'r ymgeisydd eu cynnwys yn ei bapur enwebu, wedi eu llofnodi gan yr ymgeisydd. Mae'r rheoliad hwn yn gwneud diwygiad i Reolau Etholiadau 2021 nad yw'n newid y polisi (na'i effaith) mewn ffordd arwyddocaol ac sy'n egluro darpariaeth yn y Rheolau hynny. O ganlyniad, nid oes ganddo unrhyw oblygiadau o ran cost na budd ac ni fydd yn effeithio ar y sector preifat, y sector elusennol na'r sector gwirfoddol. Ni chaiff ei ystyried yn yr Aseidiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

Mae **rheoliad 3** yn gwneud diwygiadau pellach i Reolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 a Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021. Mae'r prif ddiwygiadau i'r rheolau sy'n llywodraethu'r weithdrefn wrth gau'r bleidlais. Mae'r diwygiadau hyn yn galluogi'r copïau a farciwyd o'r cofnodion cofrestru a'r rhestr dirprwyon a'r rhestr rhifau cyfatebol a farciwyd i gael eu rhoi mewn pecynnau a'u selio mewn man heblaw'r orsaf bleidleisio. Yn ogystal â hyn, mae rheol 30 o bob un o'r Atodlenni hefyd wedi ei diwygio fel y caiff y swyddog llywyddu awdurdodi'r clerod a benodwyd gan y swyddog canlyniadau i gyflawni swyddogaethau ar ran y swyddog llywyddu y tu allan i'r orsaf bleidleisio (gan gynnwys selio unrhyw ddogfennau o dan y Rheolau). Mae'r rheoliad hwn yn galluogi swyddogion llywyddu i fabwysiadu

gweithdrefnau amgen (yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol iddynt eu mabwysiadu) at ddibenion gweinyddol ymarferol. Felly, ni chaiff ei ystyried ymhellach fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn ac nid oes ganddo unrhyw oblygiadau o ran cost.

Mae **rheoliad 4** yn diwygio rheol 31 o Atodlen 2 i Reolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021. Mae Atodlen 2 i'r Rheolau hynny yn nodi'r rheolau sy'n gymwys pan fo'r bleidlais mewn etholiad cymuned yn cael ei chyfuno â'r bleidlais mewn etholiadau penodol eraill. Mae'r diwygiadau'n darparu y bydd cardiau pleidleisio swyddogol yn yr etholiad cymuned yn cael eu dyroddi ar gais y cyngor cymuned, ac eithrio cardiau pleidleisio a ddyroddir i etholwyr sydd â chofnodion dienw y mae rhaid iddynt gael eu dyroddi pa un a oes cais ai peidio. Mae'r diwygiadau'n cywiro amryfusedd yn Atodlen 2 ac yn golygu mai'r un yw'r sefyllfa o ran dyroddi cardiau pleidleisio mewn etholiadau cymuned pa un a yw'r bleidlais yn cael ei chyfuno ai peidio. Effaith y diwygiad yw mai'r sefyllfa mewn etholiad cyfun yw'r sefyllfa a oedd yn gymwys o dan Reolau Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) (Cymru a Lloegr) 2006. Gan nad yw'r ddarpariaeth yn gwneud dim mwy na pharhau â'r sefyllfa flaenorol o dan Reolau 2006 ynghylch dyroddi cardiau pleidleisio ar gyfer etholiadau cymuned mewn pleidlais gyfun, nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cost na gweinyddu. Mae rheoliad 4 yn syml yn cywiro'r hyn a oedd yn gamgymeriad gweinyddol wrth ddrafftio Rheolau 2021 ac yn cadw'r sefyllfa sy'n gymwys ar hyn o bryd o dan Reolau 2006 – ac sy'n gymwys i etholiadau cymuned annibynnol o dan Reolau 2021. Felly, nid yw'r diwygiad a wneir gan y rheoliad hwn yn newid y sefyllfa ar gyfer swyddogion canlyniadau/awdurdodau lleol mewn unrhyw ffordd ac nid yw wedi ei ystyried yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Mae **rheoliad 5** yn gwneud diwygiadau sy'n ymwneud â'r amserlen ar gyfer etholiadau. Mae paragraffau (2) a (3) yn diwygio Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 a Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021 er mwyn ychwanegu, at y rhestr o ddiwrnodau sydd i'w diystyru wrth gyfrifo cyfnodau o amser yn amserlen yr etholiad, ddiwrnodau a bennwyd ar gyfer diolchgarwch neu alaru cyhoeddus. Dylid nodi bod y diwygiadau hyn yn cywiro hepgoriad yn y Rheolau hynny ac yn Neddf 1983 ac yn adfer y sefyllfa, sef pan fyddai'r bleidlais mewn etholiad llywodraeth leol cyffredin yng Nghymru yn digwydd ar ddydd Sadwrn, dydd Sul, Noswyl Nadolig, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Grogolith, gŵyl banc neu ddiwrnod a bennwyd ar gyfer diolchgarwch neu alaru cyhoeddus, fod yr etholiad wedi ei ohirio tan y diwrnod cyntaf wedi hynny nad yw'n un o'r diwrnodau hynny.

Mae'r ddarpariaeth hon yn cywiro hepgoriad yn Rheolau 2021 ac yn Neddf 1983 ac yn ymarferol yn adfer y ddeddfwriaeth i'r sefyllfa yr oedd ynddi cyn gwneud Rheolau 2021. Nid yw rheoliad 5 ynddo'i hun yn arwain at oblygiadau uniongyrchol o ran cost i awdurdodau lleol, ond mae'n eu gwneud yn atebol am gostau pe bai cyfres o amgylchiadau (sy'n eithriadol) wedyn yn digwydd. Heb y diwygiad, mae'n debygol y byddai'n rhaid i swyddogion canlyniadau a Llywodraeth Cymru ddelio â phrotest gan y cyhoedd a cholli eu henw da. Gyda'r diwygiad, bydd ganddynt ymateb priodol i'r brotest honno, er ei fod yn un y byddai iddo oblygiadau o ran cost. Felly, ystyrir y rheoliad hwn yn yr

Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'i oblygiadau posibl o ran cost, er eu bod yn debygol o fod yn eithriadol.

Mae **rheoliad 6** yn diwygio adrannau 67, 69 a 70 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 i roi effaith bellach i'r darpariaethau a geir yn Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 sy'n caniatáu i ymgeiswyr ei gwneud yn ofynnol nad yw eu cyfeiriad cartref yn cael ei gyhoeddi (drwy ymestyn yr opsiwn o beidio â chyhoeddi cyfeiriad cartref ymgeisydd mewn etholiad prif gyngor sy'n gweithredu fel ei asiant etholiadol ei hun – sydd, i bob pwrpas, yn cael gwared ar fwllch presennol). Mae'r rheoliad hwn yn gwneud mân ddiwygiad i broses weinyddol bresennol mewn etholiadau ar gyfer cynghorwyr i gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru heb unrhyw oblygiadau o ran cost ac ni chaiff ei ystyried yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

Mae **rheoliad 7(1)** yn cyflwyno Atodlen 1 sy'n diwygio Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru a Lloegr) 2006 (O.S. 2006/3304) fel nad ydynt yn gymwys ond o ran Lloegr. Gwneir darpariaeth ar gyfer cynnal etholiadau lleol ar gyfer prif ardaloedd yng Nghymru bellach gan Reolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021.

Mae **rheoliad 7(2)** yn cyflwyno Atodlen 2 sy'n diwygio Rheolau Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) (Cymru a Lloegr) 2006 (O.S. 2006/3305) fel nad ydynt yn gymwys ond o ran plwyfi yn Lloegr. Gwneir darpariaeth ar gyfer cynnal etholiadau lleol ar gyfer cymunedau yng Nghymru bellach gan Reolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021.

Mae **rheoliad 8** yn dirymu Gorchymyn Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Ffurflenni Cymraeg) 2007 (O.S. 2007/1015), Gorchymyn Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Ffurflenni Cymraeg) 2007 (O.S. 2007/1013) ac offerynnau sy'n diwygio'r Gorchymynion hynny. Mae'r Gorchymynion bellach wedi eu disbyddu o ganlyniad i'r ddarpariaeth a wneir gan Reolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 a Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021.

Mae **rheoliad 9** yn cyflwyno Atodlen 3 sy'n diwygio Atodlen 4 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (O.S. 2007/236). Mae Atodlen 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch yr hyn sy'n digwydd pan fo'r bleidlais mewn etholiad Senedd Cymru yn cael ei chyfuno â phleidlais mewn etholiad llywodraeth leol yng Nghymru. Yr hyn a wna Atodlen 3 yw sicrhau bod y cyfuniadau'n ymwneud ag etholiadau prif ardal ac etholiadau cymuned o dan Reolau newydd 2021 yn hytrach na Rheolau perthnasol 2006.

Mae rheoliadau 7, 8 a 9 o ganlyniad i wneud a gweithredu Rheolau newydd 2021. Nid oes ganddynt unrhyw oblygiadau o ran cost y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes wedi ei ystyried fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Rheolau hynny ac ni chânt eu hystyried yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

Mae **rheoliad 10** yn diwygio rheoliad 56(3B) a (3C) o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 ac yn galluogi ceisiadau penodol yn ymwneud â phleidleisio drwy ddirprwy i gael eu gwneud hyd 5 pm ar ddiwrnod y bleidlais mewn etholiad llywodraeth leol yng Nghymru ar seiliau sy'n ymwneud â

phandemig COVID-19, a hynny ym mhob etholiad llywodraeth leol yng Nghymru y mae'r bleidlais ar ei gyfer yn digwydd cyn 31 Mai 2023.

Gallai'r ddarpariaeth hon (rheoliad 10) fod â goblygiadau o ran cost a gweinyddu i awdurdodau lleol yng Nghymru a chaiff y rhain eu hystyried yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

Mae **rheoliad 11** yn cyflwyno Atodlen 4 sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol pellach.

- Mae paragraff 1 yn hepgor darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sydd bellach wedi eu disbyddu.
- Mae paragraff 2 o'r Atodlen honno'n diwygio rheoliad 6 o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cyfuno Cynnal Pleidleisiau) (Cymru a Lloegr) 2004 (O.S. 2004/294). Mae hyn yn angenrheidiol gan fod darpariaeth ynghylch treuliau swyddogion canlyniadau mewn etholiadau lleol yng Nghymru bellach yn cael ei gwneud gan adran 36C o Ddeddf 1983 (fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 2(5) o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021).
- Mae paragraff 3 o'r Atodlen honno'n diwygio rheoliad 4 o'r Rheoliadau Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (Swyddogaethau Swyddogion Canlyniadau) er mwyn ychwanegu cyfeiriadau at reol 55 o Reolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 ac o Reolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021 (ymdrin â gwahanu papurau pleidleisio mewn pleidleisiau wedi eu cyfuno). Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd na fydd y cyfeiriadau presennol at ddarpariaethau Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru a Lloegr) 2006 a Rheolau Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) (Cymru a Lloegr) 2006 yn gymwys mwyach o ran Cymru.

Mae'r darpariaethau a wneir gan y rheoliad hwn o ganlyniad i wneud a gweithredu Rheolau newydd 2021. Nid oes ganddynt unrhyw oblygiadau o ran cost ac ni chânt eu hystyried yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

Mae **rheoliad 12** yn gwneud darpariaeth drosiannol fel nad yw dirymiadau perthnasol a diwygiadau eraill a wneir gan y Rheoliadau yn effeithio ar gynnal etholiad ar gyfer cynghorwyr i gyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned yng Nghymru pan fo'r bleidlais yn yr etholiad yn digwydd cyn 5 Mai 2022. Nid oes gan y rheoliad hwn unrhyw oblygiadau o ran cost na budd ac ni fydd yn effeithio ar y sector cyhoeddus, y sector preifat, y sector elusennol na'r sector gwirfoddol. O ganlyniad, ni fydd y rheoliad hwn yn cael ei ystyried yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

Ar gyfer y Rheoliadau hynny sydd wedi eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn (Rheoliadau 5 a 10 yn y drefn honno), ystyriwyd dau opsiwn:

- Opsiwn 1 – Cyflwyno'r ddarpariaeth
- Opsiwn 2 – Peidio â chyflwyno'r ddarpariaeth dan sylw

Rheoliad 5

Mae'r diwygiad arfaethedig yn ychwanegu diwrnod a bennwyd ar gyfer diolchgarwch neu alaru cyhoeddus at y rhestr o "ddiwrnodau eithriedig" yn rheol 3(1) o'r ddwy set o Reolau 2021, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys dydd

Sadwrn, dydd Sul, Noswyl Nadolig, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith a gŵyl banc. Mae hefyd yn gwneud newidiadau cysylltiedig i adran 40 o Ddeddf 1983. Effaith y diwygiad arfaethedig yw, pan fyddai'r bleidlais mewn etholiad llywodraeth leol cyffredin yng Nghymru yn digwydd ar ddiwrnod a bennwyd ar gyfer diolchgarwch neu alaru cyhoeddus, fod trafodion a restrir yn rheol 1 o'r ddwy set o reolau cynnal etholiadau wedi eu gohirio tan y diwrnod cyntaf wedi hynny nad yw'n un o'r diwrnodau hynny.

Mae'r diwrnodau a restrir ar hyn o bryd yn y rheoliad hwn wedi eu pennu ymhell ymlaen llaw ac felly mae'n bosibl eu hystyried wrth drefnu etholiad llywodraeth leol.

Fodd bynnag, mae'n bosibl cyhoeddi diwrnod (neu ddiwrnodau) o ddiolchgarwch neu alaru cyhoeddus ar fyr rybudd. Os bydd y diwrnod o ddiolchgarwch neu alaru cyhoeddus yn digwydd ar y diwrnod a bennwyd ar gyfer y rhan fwyaf o drafodion yr etholiad, ni fydd y ffaith y bydd yn rhaid iddynt gael eu gohirio am ddiwrnod yn gwneud unrhyw wahaniaeth sylweddol, naill ai i drefniadaeth yr etholiad neu'r costau. Fodd bynnag, byddai goblygiadau pe bai'r diwrnod ar gyfer diolchgarwch neu alaru cyhoeddus yn digwydd ar y diwrnod a bennwyd ar gyfer pleidleisio mewn etholiad a thrafodir y rhain isod.

Opsiwn 1 - Gwneud y rheoliad

Os bydd angen gohirio'r diwrnod pleidleisio mewn etholiad llywodraeth leol ar fyr rybudd, rhagwelir y bydd awdurdodau lleol yn debygol o wynebu costau ychwanegol. Bydd maint y costau hyn yn amrywio rhwng awdurdodau lleol, ond byddent yn debygol o ddod o dan y categorïau canlynol:

- Llogi gorsafodd pleidleisio. Mae rhai gorsafodd pleidleisio wedi eu lleoli mewn adeiladau nad ydynt yn eiddo i'r awdurdod lleol ac, o ganlyniad, mae awdurdodau lleol yn talu ffi am logi'r adeilad (neu'r ystafell) dan sylw. Pan fo'r diwrnod pleidleisio wedi ei ohirio, gallai awdurdodau lleol ysgwyddo tâl ychwanegol am ail-logi safleoedd ar ail ddiwrnod.
- Llogi canolfannau cyfrif. Mae'r rhan fwyaf o ganolfannau cyfrif yn eiddo i'r awdurdod lleol, ond mae nifer yn cael eu llogi ar gyfer yr achlysur ac, unwaith eto, pan fo'r diwrnod pleidleisio wedi ei ohirio, gallai awdurdodau lleol ysgwyddo tâl ychwanegol am ail-logi safleoedd.
- Cyhoeddusrwydd ynghylch y dyddiad pleidleisio wedi ei ad-drefnu. Gallai awdurdodau lleol ysgwyddo costau wrth roi cyhoeddusrwydd i'r newidiadau i ddyddiad y bleidlais.

Mae'n annhebygol iawn y bydd gohirio'r diwrnod pleidleisio o dan yr amgylchiadau hyn yn arwain at ailargraffu papurau pleidleisio. Nid oes rheswm pam na ellir defnyddio'r un papurau pleidleisio ar y diwrnod pleidleisio diwygiedig. Yn wir, mae'n debygol y bydd papurau pleidleisio drwy'r post eisoes wedi eu cyhoeddi ac o bosibl wedi eu dychwelyd gan bleidleiswyr, gan ychwanegu mwy o bwys at y ddatl na ddylid ailargraffu.

Er mwyn asesu'r costau ychwanegol y gellid eu hysgwyddo o ganlyniad i ohirio'r diwrnod pleidleisio, mae swyddogion wedi defnyddio'r hawliadau a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'u

gwaith o gynnal etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021. Gall awdurdodau lleol hawlio gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r costau a ysgwyddir wrth gynnal etholiad y Senedd ac mae'r categorïau o dreulïau a hawlir yn debyg i'r rhai a ysgwyddir yn ystod etholiad llywodraeth leol.

- Yn seiliedig ar yr hawliadau a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd 2021 (ar adeg drafftio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, roedd 18 o'r 22 Awdurdod Lleol wedi cyflwyno eu hawliadau). Cyfanswm yr hawliad cyfartalog a gyflwynwyd mewn perthynas â llogi gorsafodd pleidleisio (ar draws awdurdod lleol) oedd **£10,700** fesul awdurdod lleol (neu gyfanswm o oddeutu £235,000). Pe bai'r diwrnod pleidleisio wedi ei ohirio o ganlyniad i ddiwrnod o ddiolchgarwch neu alaru cyhoeddus yn cael ei gyhoeddi ar fyr rybudd ac yn digwydd ar y diwrnod a bennwyd ar gyfer etholiad (a'r diwrnod pleidleisio yn cael ei ohirio), gallai awdurdodau lleol ysgwyddo costau llogi gorsafodd pleidleisio ychwanegol sy'n cyfateb, ar gyfartaledd, i'r swm hwn. Mae'r ffigur hwn yn rhagdybio y byddai'r tâl llogi llawn ar gyfer safleoedd gorsafodd pleidleisio yn cael ei godi mewn perthynas â gohirio'r diwrnod pleidleisio. Mewn gwirionedd, efallai na chodir tâl ar awdurdodau lleol mewn perthynas ag archeb wedi ei chanslo neu ei gohirio neu efallai mai tâl enwol a godir arnynt yn unig. Felly, mae'r costau fesul awdurdod lleol yn debygol o fod yn sylweddol is ac mae'r cyfartaledd o **£10,700** fesul awdurdod lleol yn cynrychioli'r sefyllfa waethaf.
- O ran y safle a ddefnyddir i gyfrif a dilysu pleidleisiau ar ôl etholiad, mae awdurdodau lleol yn defnyddio amrywiaeth o leoliadau. Mae rhai yn defnyddio cyfleusterau sy'n eiddo i'r awdurdod lleol megis canolfannau hamdden, neu ysgolion a cholegau tra bod eraill yn llogi lleoliadau preifat. Fel arfer, mae'r cyfrif a'r dilysu yn digwydd dros nos yn syth ar ôl i'r bleidlais gau. Fodd bynnag, gall ddigwydd dros nifer o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod pleidleisio a nifer y diwrnodau y caiff safleoedd cyfrif a dilysu eu llogi am fel arfer yw dau neu dri diwrnod dros y penwythnos ar ôl yr etholiad. Gallai effaith gohirio'r diwrnod pleidleisio ar gostau newid archebion ar gyfer lleoliadau cyfrif a dilysu amrywio o ddim (pe bai rheolwyr y lleoliadau'n fodlon newid yr archeb heb godi tâl ychwanegol), i godi tâl am logi diwrnod ychwanegol neu, ar y pegwn arall, i ail-godi tâl llawn am nifer y diwrnodau a archebwyd yn wreiddiol. Rydym wedi cyfrifo mai'r gost fesul awdurdod lleol y dydd yw **£1,800** ar gyfartaledd (unwaith eto, yn seiliedig ar y 18 hawliad a dderbyniwyd hyd yma mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd 2021).
- Mae nifer sylweddol o'r safleoedd a ddefnyddir i gyfrif a dilysu ar gyfer etholiadau yn eiddo i'r awdurdod lleol. O ganlyniad, gellid dadlau, er bod awdurdodau lleol yn codi tâl ar Lywodraeth Cymru am ddefnyddio'r lleoliadau hyn ar gyfer etholiadau'r Senedd, na fyddent hwy eu hunain, yn gorfod talu am eu defnyddio ar gyfer etholiadau llywodraeth leol. Fodd bynnag, gwrthddadl yw bod defnyddio lleoliadau at ddibenion etholiadau llywodraeth leol yn golygu y gallai awdurdodau lleol golli refeniw am nad ydynt yn gallu llogi safleoedd ar gyfer digwyddiadau eraill.

- Nid oes cynsail ddiweddar, gyfaradwy i ohirio'r diwrnod pleidleisio o ganlyniad i gyfnod o ddiolchgarwch neu alaru cyhoeddus ac, o'r herwydd, mae'n anodd rhagweld y costau cyhoeddus sy'n gysylltiedig â digwyddiad o'r fath. Bydd digwyddiad mor fawr nes bod angen gohirio'r diwrnod pleidleisio yn cael sylw eang yn y cyfryngau cenedlaethol. Byddai'r cyfryngau cenedlaethol a lleol hefyd yn debygol iawn o adrodd am fanylion y dyddiad pleidleisio wedi ei ad-drefnu. Byddai hyn yn lleihau faint o gyhoeddus sydd yn byddai angen i awdurdod lleol dalu amdano. Mae hefyd yn debygol y byddai'r defnydd mwyaf posibl yn cael ei wneud o'r cyfryngau cymdeithasol a gwefannau awdurdodau lleol eu hunain sydd hefyd yn isel o ran cost.

Gan fod y sefyllfa'n ddigynsail a chydag awdurdodau lleol yn ddi-os yn mabwysiadu dulliau gwahanol, mae'n anodd iawn amcangyfrif faint y byddent yn debygol o'i wario. Felly, mae swyddogion yn awgrymu, at ddibenion yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn, y rhagdybir na fyddai awdurdodau lleol yn gwario mwy na £5,000 yr un wrth roi cyhoeddus i'r diwrnod pleidleisio diwygiedig.

Prif fantais yr opsiwn hwn yw ei fod yn rhoi eglurder ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pe bai diwrnod a bennwyd ar gyfer diolchgarwch neu alaru cyhoeddus yn cyd-daro â'r diwrnod a bennwyd yn flaenorol ar gyfer pleidleisio. Fel y gwelir yn yr adran ganlynol, gallai'r gost sy'n gysylltiedig â chyflwyno deddfwriaeth frys ar gyflymder i ohirio etholiad pe bai cyfnod o ddiolchgarwch neu alaru cyhoeddus fod yn uwch. Ar ben hynny, gallai olygu niwed difrifol i enw da'r llywodraeth ar lefel leol a chenedlaethol.

Opsiwn 2 - Peidio â gwneud y rheoliad dan sylw

Os na chaiff y diwrnod pleidleisio ei ohirio, pe bai diwrnod o ddiolchgarwch neu alaru cyhoeddus, byddai hyn yn debygol o arwain at bryder a dryswch i'r cyhoedd, yn ogystal â niwed sylweddol i enw da'r llywodraeth ar lefel leol a chenedlaethol. Gallai hefyd effeithio ar y nifer sy'n pleidleisio. O ganlyniad i bwysau gan y cyhoedd, gellid ystyried bod angen cyflwyno deddfwriaeth frys i ohirio'r diwrnod pleidleisio a fyddai'n arwain at gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru ac yn ei gwneud yn ofynnol i ailgynnull y Senedd ar frys.

Gellid dadlau felly na fydd peidio â chyflwyno darpariaeth sy'n caniatáu gohirio'r diwrnod pleidleisio o dan yr amgylchiadau a nodir uchod yn golygu arbediad ariannol. Y rheswm am hyn yw y bydd pwysau gan y cyhoedd yn arwain at ohirio beth bynnag gyda chostau mwy o bosibl yn cael eu hysgwyo o ganlyniad i gyflwyno deddfwriaeth frys ar gyflymder sylweddol.

Rheoliad 10

Opsiwn 1 - Gwneud y rheoliad

Effaith y rheoliad hwn yw ymestyn y ddarpariaeth bresennol, a fyddai fel arall yn dod i ben yn 2022, sy'n galluogi ceisiadau penodol yn ymwneud â phleidleisio drwy ddirprwy i gael eu gwneud hyd 5 pm ar ddiwrnod y bleidlais mewn is-etholiad llywodraeth leol yng Nghymru ar seiliau sy'n ymwneud â

phandemig COVID-19. Byddai rheoliad 10 hefyd yn ymestyn y defnydd o'r diwygiadau i bob etholiad llywodraeth leol yng Nghymru y mae'r bleidlais ar ei gyfer yn digwydd cyn 31 Mai 2023.

Nid yw'n bosibl, neu o leiaf, mae'n anodd iawn, rhagweld y sefyllfa'n gywir o ran COVID-19 a gallai fod yn ofynnol i bleidleiswyr hunanynysu ar fyr rybudd hyd y gellir rhagweld. Mae'n iawn ac yn briodol, os disgwylir iddynt gydymffurfio â gofyniad i hunanynysu, y dylid rhoi pob cymorth rhesymol iddynt er mwyn arfer eu hawl i bleidleisio. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, y cwestiynau yw a fydd hyn yn arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau am bleidleisiau drwy ddirprwy mewn argyfwng ac o ganlyniad cynnydd mewn costau gweinyddol i awdurdodau lleol.

O ran a fydd y ddarpariaeth yn arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau am bleidleisiau drwy ddirprwy mewn argyfwng, mae cynsail. Mae'r rheoliad yn ymestyn darpariaeth bresennol a gyflwynwyd i ddechrau o dan ddeddfwriaeth frys COVID ar gyfer is-etholiadau llywodraeth leol.

Roedd darpariaeth gyfaradwy hefyd ar waith ar gyfer etholiadau'r Senedd 2021. Yn ystod yr etholiadau hynny, yn un o'r ardaloedd awdurdod lleol mwyaf poblog, dim ond 20 o geisiadau a gafwyd am bleidleisiau drwy ddirprwy mewn argyfwng. Mae hyn yn cynrychioli canran fach iawn o gyfanswm nifer yr etholwyr ac mae'n annhebygol iawn o arwain at gostau ychwanegol sylweddol wrth eu prosesu. Nid yw'n glir faint o'r rhain a gafwyd yn sgil COVID gan na chedwir manylion am gyflwr meddygol pleidleiswyr. Fodd bynnag, mae'r gweinyddwr etholiadol wedi cadarnhau na achosodd hyn broblem i staff gwasanaethau etholiadol ac ni ystyriwyd y nifer hwn yn sylweddol. Rydym wedi sefydlu mai amcangyfrif rhesymol ar gyfer prosesu cais heb ei dystio am bleidlais drwy ddirprwy mewn argyfwng i awdurdodau lleol yw oddeutu £10. Felly, cyfanswm cost prosesu'r holl geisiadau am bleidleisiau drwy ddirprwy mewn argyfwng yn yr awdurdod lleol dan sylw oedd oddeutu £200.

Opsiwn 2 - Peidio â gwneud y rheoliad dan sylw

Fel y nodwyd eisoes uchod, nid yw'n bosibl, neu o leiaf, mae'n anodd iawn, rhagweld y sefyllfa o ran COVID-19 yn gywir a gallai fod yn ofynnol i bleidleiswyr hunanynysu ar fyr rybudd hyd y gellir rhagweld. Pe na bai'r ddarpariaeth bresennol yn cael ei hymestyn y tu hwnt i'r adeg y byddai fel arall yn dod i ben fel y cynigir gan y rheoliad hwn, byddai angen i unrhyw bleidleisiwr sydd wedi profi'n bositif am COVID-19 ar ddiwrnod yr etholiad gael ei gais am bleidlais drwy ddirprwy mewn argyfwng wedi ei dystio'n feddygol cyn y gellid ei dderbyn. O ystyried y gofyniad i hunanynysu ar gyfer y rhai sy'n profi'n bositif, gallai hyn fod yn broblem fawr. Gellid ystyried i bob pwrpas bod person o'r fath wedi ei wahardd rhag bwrw ei bleidlais a thrwy hynny bod ei hawl i bleidleisio wedi ei wrthod.

Casgliad

Mae'n bosibl y bydd cost yn gysylltiedig â chyflwyno rheoliad 5. Byddai gohirio'r diwrnod pleidleisio yn arwain at gostau ychwanegol i awdurdodau lleol a fyddai o bosibl angen ail-logi gorsafoedd pleidleisio, a safleoedd ar gyfer cyfrif a dilysu. Fodd bynnag, rhaid cymharu hyn ag effaith peidio â gwneud darpariaeth

ar gyfer gohirio'r diwrnod pleidleisio. Byddai bwrw ymlaen â phleidleisio ar ddiwrnod a ddynodwyd yn ddiwrnod o ddiolchgarwch neu alaru cyhoeddus yn sicr yn cael ei ystyried yn amhriodol neu'n amharchus. Yn wyneb teimladau mor gryf, gellid gwneud penderfyniad i ohirio beth bynnag, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol cyflwyno deddfwriaeth frys sy'n gostus. Yn yr achos hwn, byddai awdurdodau lleol yn dal i fod yn debygol o wynebu cost ychwanegol ail-logi gorsafoddedd pleidleisio, a safleoedd ar gyfer cyfrif a dilysu.

Byddai gwneud rheoliad 10 yn darparu ar gyfer ymestyn y ddeddfwriaeth bresennol sy'n galluogi pleidleiswyr yr effeithir arnynt gan COVID-19 i wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy mewn argyfwng hyd 5pm ar ddiwrnod y bleidlais tan 31 Mai 2023. Gallai hyn arwain at don o geisiadau ychwanegol am bleidleisiau drwy ddirprwy mewn argyfwng. Fodd bynnag, er bod darpariaeth gymaradwy mewn grym yn ystod etholiadau'r Senedd yn 2021, mae un o'r awdurdodau lleol mwyaf poblog yng Nghymru wedi adrodd na ddigwyddodd hyn ac na wnaethant wynebu costau prosesu ychwanegol sylweddol. O ystyried yr ansicrwydd ynghylch sut y gallai'r sefyllfa o ran COVID-19 newid yn y dyfodol, mae cyflwyno'r rheoliad yn symleiddio gweithdrefn sy'n bodoli eisoes a allai, heb ei newid, arwain at unigolion yn methu ag arfer eu hawl i bleidleisio.